



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

Yr Arolygiaeth Gynllunio
d/o QUADIENT
69 Buckingham Avenue
Slough
SL1 4PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: [connahsquay@
planninginspectorate.gov.uk](mailto:connahsquay@planninginspectorate.gov.uk)

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010166

Dyddiad: 7 Ebrill 2026

Annwyl [REDACTED]

Cais gan Uniper UK am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Connah's Quay (EN010166)

Deddf Cynllunio 2008 – adran 89(3)

Penderfyniad gweithdrefnol – Derbyn cais am newid

Yn dilyn y rhybudd gan yr ymgeisydd o'u bwriad i gyflwyno cais am newid mewn perthynas â'r cais am orchymyn caniatâd datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Connah's Quay ar 9 Ionawr 2026, mae cais ffurfiol am newid wedi'i gyflwyno gan yr ymgeisydd ar 10 Mawrth 2026.

Mae'r ymgeisydd wedi cynnig chwe newid i'r cais [CR1-118], sef:

1. Lleihau'r pwerau caffael tir
2. Alinio cynllun tirlunio coridor cysylltiad CO₂ â phrosiect piblinell CO₂ HyNet
3. Addasu dynodiad tir
4. Lleihau uchder y simnai adfer gwres a'r amsugnwr planhigyn dal carbon
5. Ailgartrefu cyfleusterau'r contractwyr
6. Ehangu'r arwyneb caled arfaethedig yn jetiau gogledd Connah's Quay

Mae'r ymgeisydd wedi darparu diweddariadau i'r holl ddogfennau cais angenrheidiol ynghyd ag adroddiad ymgynghori ac adroddiad cais am newid [CR1-001 i CR1-122], sy'n cynnwys ei asesiad ei hun o effaith y newidiadau arfaethedig. Mae'r ymgeisydd wedi dod i'r casgliad nad yw'r newidiadau arfaethedig yn sylweddol i'r graddau y byddent yn creu cynigion gwbl wahanol i'r rhai a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd ar gyfer archwiliad, ac nad oes pryder ynghylch diffyg amser i archwilio'r cais gyda'r newidiadau hyn.

Mae'r ymgeisydd hefyd wedi nodi eu rhesymau dros ystyried, er eu bod yn cynnig newid i derfynau'r gorchymyn, nad oes pwerau caffael gorfodol ychwanegol yn cael eu ceisio ac felly nad oes angen cynnal y gweithdrefnau ychwanegol a nodir yn y rheoliadau caffael gorfodol.

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi ystyried y cyflwyniadau ychwanegol ac wedi dod i'r casgliad na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn creu prosiect a fyddai'n wahanol yn sylweddol i'r prosiect y ceisiwyd caniatâd datblygu ar ei gyfer yn wreiddiol. Felly, mae'r ExA yn ystyried bod y newidiadau hyn yn rhai ansylweddol eu natur. O ganlyniad, nid oes angen derbyniad ffurfiol, hysbysiad, ymgynghoriad (heblaw'r ymgynghoriad penodol a gynhaliwyd eisoes gan yr ymgeisydd), nac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig arall cyn i'r ExA archwilio'r cais fel y'i diwygiwyd.

Ar y sail hon, mae'r ExA wedi penderfynu derbyn newidiadau arfaethedig yr ymgeisydd i'w harchwilio. Nid yw'r penderfyniad hwn gan yr ExA yn awgrymu ei fod yn cytuno â'r dystiolaeth a gyflwynwyd mewn perthynas ag effeithiau'r datblygiad arfaethedig. Caiff yr effeithiau eu harchwilio gyda'r un lefel o graffu â'r cais gwreiddiol.

Mae'r ExA yn cydnabod, wrth ystyried a ddylid derbyn y newidiadau arfaethedig i'w harchwilio, fod yn rhaid iddo weithredu'n rhesymol ac yn unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol. Wrth gymhwyso'r cyngor yn Nodiad Cyngor 16, mae'r ExA yn fodlon y bydd digon o gyfle yn ystod gweddill y broses Archwilio i'r holl Bartïon â Diddordeb a'r rhai Statudol perthnasol weld y newidiadau, gwneud sylwadau arnynt, ac i'r ExA ystyried unrhyw sylwadau.

Mae Penderfyniad Gweithdrefnol wedi'i wneud gan yr ExA yn dilyn cais ffurfiol yr ymgeisydd i dderbyn y cais am newid hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y materion hyn, mae croeso ichi gysylltu â'n swyddfa gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

[Redacted signature]

Nick Ely
Awdurdod Archwilio

Nid yw'r llythyr hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.